**PWYLLGOR ARDAL DWYFOR**

**11/9/17 (5.20PM – 7.20PM)**

**Presennol:-** Y Cynghorydd Sian Wyn Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dylan Bullard (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Nia Jeffreys, Aled Wyn Jones, Dewi Wyn Roberts, Angela Ann Russell, Hefin Underwood, Gareth Williams ac Owain Williams.

**Swyddogion:-** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Hefyd: Emyr Edwards (Rheolwr Ymchwil a Dadansoddeg) a Lowri Francis (Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg Dros Dro) ar gyfer eitem 4 isod.

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Simon Glyn, E. Selwyn Griffiths, John Brynmor Hughes, Peter Read, W. Gareth Roberts a Eirwyn Williams.

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Ethol Cadeirydd**<br><br>Etholwyd y Cynghorydd Sian Wyn Hughes yn Gadeirydd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **Ethol Is-Gadeirydd**<br><br>Etholwyd y Cynghorydd Dylan Bullard yn Is-Gadeirydd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Cyflwyniad i'r Fforwm**<br><br>Derbyniwyd eglurhad gan yr Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol ar gylch gorchwyl y Fforwm gan dynnu sylw bod y Fforymau ar gyfer trafod materion hynny rhwng gwaith ward ar y naill law a materion sir gyfan y dylid ymdrin â hwy drwy drefniadau craffu. Atgoffwyd nad oedd gan y Fforwm bwerau gweithredol o ran gwneud penderfyniad ond bod modd ceisio gwneud penderfyniadau i ddylanwadu ar Aelod Cabinet neu Adran a chyfeirio unrhyw fater i'w graffu'n ffurfiol.<br><br>Nodwyd y defnyddir y Fforymau ar gyfer hyfforddiant neu rannu gwybodaeth | |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Sesiwn Gwybodaeth am y Sir**<br><br>Derbyniwyd cyflwyniad am wybodaeth am y Sir gan Rheolwr | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ymchwil a Dadansoddeg a'r Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg Dros Dro. | |
| | Pwyntiau Gweithredu:<br><br>• Darparu gwybodaeth amcanestyniadau Poblogaeth Gwynedd fesul ardal llesiant;<br>• Darparu gwybodaeth lefel Cymru o ran mynediad at wasanaethau;<br>• Darparu ffigyrau o ran hunangyflogaeth yn Nwyfor;<br>• Anfon copi o'r cyflwyniad i'r aelodau | EE/LF<br><br>"<br><br>"<br>BA |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Sefydlu Materion ar gyfer y Rhaglen Waith**<br><br>Cyfeiriwyd at y rhestr o faterion a drafodwyd gan y Fforwm Ardal eisoes rhwng 2013 - 2017. Cafwyd awgrymiadau am faterion i'w ystyried yn y cyfarfodydd am y flwyddyn. | |
| | Pwyntiau Gweithredu:<br><br>(i) Cytuno ar yr eitemau canlynol gan ystyried eitemau eraill yn ystod y flwyddyn:<br>• Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd<br>• Manteisio ar gyfleoedd o ran yr Iaith ym myd gwaith<br>• Darpariaeth Tai yn yr Ardal<br>• Incwm Premiwm Treth Ail-Gartrefi<br>• Prinder meddygon teulu a gweithwyr gofal yn yr ardal<br>• Diwygio wardiau etholiadol<br><br>(ii) Swyddogion i ymgynghori efo'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd o ran pa eitemau y dylid cynnwys ar raglenni'r cyfarfodydd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Dyddiadau Cyfarfodydd 2017-18** | |
| | Pwynt Gweithredu:<br><br>Nodi dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn i ddod, sef:<br><br>• dydd Llun, 11 Rhagfyr 2017<br>• dydd Llun, 5 Mawrth 2018 | |